



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 62
IONAWR 2014

Stori dda oedd yr un a ymddangosodd yn y wasg rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd am yr offeiriad o swydd Derby, y Tad Jamie Macleod, a brynodd lun mewn siop yng Nghaer ryw ddeng mlynedd yn ol am £400 heb wybod ar y pryd ei fod wedi cael gafael ar ddarn o gelf pwysig iawn. Rai misoedd yn ôl fe aeth â'r llun i'w ddangos i arbenigwyr yr *Antiques Roadshow* ac yn dilyn archwiliad hynod fanwl derbyniodd gadarnhad mai gwaith gwreiddiol ydoedd gan neb llai na Anthony van Dyke, yr artist enwog o Fflandrys o'r ail ganrif ar bymtheg. Er mawr syndod i'r offeiriad, roedd gwerth y llun bellach oddeutu £400,000, tipyn mwy na'r hyn a dalodd yn wreiddiol amdano. Bwriad yr offeiriad yw gwerthu'r llun a phrynu clychau newydd ar gyfer canolfan encil y mae'n ei rhedeg, am ei fod yn awyddus i ganu'r clychau i nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2018. Profiad braf iawn mae'n siwr oedd darganfod y trysor gwerthfawr hwn o'r newydd.

Ar ddydd Llun, y 6ed Ionawr, dethlir Gŵyl yr Ystwyll (sef Dydd Nadolig yr Eglwys Uniongred) pan gofir am y doethion yn cyrraedd Bethlehem ac yn cyflwyno eu trysorau o aur, thus a myrr gerbron y baban yn y crud, a thrwy wneud hynny yn darganfod y trysor pennaf oll, Iesu Grist. Mae'r adeg hon o'r flwyddyn felly yn gyfle da i gydnabod a diolch am y trysorau pennaf yn ein bywydau: cariad cyfeillion a theulu; rhyddid i fynegi barn a chyffesu ffydd; aelwydydd cysurus a diwylliant cymdeithas. Ond mae'n gyfle hefyd i weddio dros y manau hynny yn ein byd sydd wedi colli golwg ar drysorau pennaf bywyd.

Dychmygwch am funud pe bai arweinwyr gwlad Syria yn darganfod y trysor o heddwch a chymod; pe bai'r Taliban yn Afghanistan yn darganfod bod gan ferched hawliau sylfaenol i addysg a holl freintiau bywyd a phe bai arweinydd Gogledd Corea yn penderfynu agor drysau ei wlad i ryddid barn. Dyma fyddai darganfod trysorau gwirioneddol o'r newydd a chael gafael ar hen, hen weledigaeth y crud.

Boed i oleuni'r preseb lewyrchu'n ddisglair yn ystod y flwyddyn newydd hon ac arwain holl bobloedd y ddaear i ail-ddarganfod y trysor pennaf oll, sef Iesu a'i gariad.

Pob Bendith a Blwyddyn Newydd Dda.

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS IONAWR 2014

Cyhoeddwr y Mis: Richard Wyn Davies	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
5 Ionawr 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Rhiannon a Carwen
12 Ionawr 10.30yb	Oedfa Deuluol yr Anrhegion: Gweinidog Cofiwch ddod ag un o'ch anrhegion Nadolig i'r Oedfa!	
19 Ionawr 2.30yp 6..00yh	Oedfa Bregeth: Gweinidog Oedfa Unedig ddwyieithog Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol yng Nghapel y Morfa am 6yh. Pregethir gan Derek Jones, Byddin yr Iachawdwriaeth, Caerdydd.	Gofal y Te: Rhiannon a Carwen
26 Ionawr 10.30yb	Oedfa Bregeth: Gweinidog	
2 Chwefror 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun:l'w drefnu

I'CH DYDDIADUR

6 Ionawr: Cinio Bara Caws yn Eglwys San Paul: 12.00-1.30yp.
 7 Ionawr: Pwyllgor y Cyflwyniad: Cyfarfod yn Ffestri'r Garn am 7.00yh.
 8 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.
 15 Ionawr: Cymdeithas Bethel yng nghwmni Sue Jones-Davies am 2.30yp.
 15 Ionawr: Cymdeithas y Penrhyn: Y Parchg Beti Wyn James yn Ffestri Horeb am 7.30yh.
 16 Ionawr: CIC yn ail-ddechrau yn Ffestri'r Garn. Gemau Gwirion yng nghwmni Zoe am 7yh.
 16 Ionawr: Lansio cyfrol Pryderi Llwyd Jones, *Ffiniau ac Arfordir Ffydd* yn y Morlan yng nghwmni Enid Morgan a Densil Morgan am 7.30yh.
 21 Ionawr: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am 5yh.
 22 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp: Horeb yn gyfrifol am weini.
 28 Ionawr : Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp. Byddwn yn darllen Pennod 12 o Lyfr y Datguddiad.
 3 Chwefror: Ymweliad gan y Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth UBC am 5yh. Croeso cynnes i bawb.
 22 Mehefin: Pererindod i Ardal yr Emynyddes Ann Griffiths.

LLOFFION

Dymuniadau gorau i Connie, Cliff a Caitlin sydd wedi bod yn yr ysbyty. Brysiwch wella!

Croeso cynnes i Martha Elen! Wŷres i Glenys a William, chwaer i Cian, a merch i Meilyr a Frances. Dymuniadau gorau hefyd i Cian a fu yn yr ysbyty cyn y Nadolig.

Dymuniadau gorau i Cerys Humphreys a fydd yn teithio i Awstralia yn ystod y mis i wneud gwaith ymchwil ar ymyrraethau byr alcohol a thybaco fel rhan o Gymrodoriaeth Winston Churchill. Siwne hwylus!

Ymweliad gan Simeon: Bydd Simeon (Cyfarwyddwr Cenhadaeth UBC) yn ymweld â ni ar nos Lun, 3ydd Chwefror am 5yh i'n cynorthwyo i feddwl am ffyrdd newydd o gyfathrebu'r neges Gristnogol ac o roi cariad Duw ar waith yn ein cymdeithas. Croeso cynnes i bawb. Bydd hefyd yn ymweld â Bethel brynhawn dydd Mercher 12 Mawrth. Croeso i'r cyfarfod hwn hefyd.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae Rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris. Pris £1.35.

Diolch yn fawr i BAWB a gyfrannodd i greu Oedfa Nadolig gofiadwy. Dioch yn arbennig hefyd i Siôn Corn am alw heibio. Braff oedd cael ei gwmi!

To'r Capel: Cawsom syndod o weld y llechi wedi cael eu chwythu oddi ar y to yn dilyn y stormydd ffyrnig yn ddiweddar. Diolch i bawb fu wrthi yn trefnu adeiladwyr i warchod y capel, yn cysylltu â'r cwmni yswiriant ac yn gosod arwyddion diogelwch.